Adroddiad ar

Cylch Meithrin Llanbedr

Neuadd y Pentref
Llanbedr
LL45 2LD

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llanbedr

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llanbedr |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Llanbedr |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Mialey Deyna-Jones a Julie Harris |
| Person â gofal | Jasmine Morgan |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 8 blwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 8 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun, Dydd Mawrth, Dydd Mercher, Dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf ar ôl cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 10/07/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 11/03/2025 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1. Gwella cyfleoedd i'r plant ddefnyddio offer digidol yn eu chwarae

A2. Defnyddio arsylwadau ac asesiadau yn fwy effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn dysgu plant unigol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus, yn datgan brwdfrydedd, ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Maent yn dewis sut neu ble i chwarae ac yn gwybod bydd ymarferwyr yn parchu eu dewisiadau. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. O ganlyniad, maent yn awyddus ac yn hyderus wrth rannu eu syniadau a’u theimladau, ateb cwestiynau a siarad ag ymarferwyr.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn fodlon ac yn gyfforddus yng ngofal ymarferwyr. Maent yn cyrraedd yn hapus ac yn ymdopi heb drafferth wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a’u gofalwyr. Mae’r rhan fwyaf yn dechrau ar weithgareddau yn syth wrth iddynt gyrraedd. Caiff unrhyw blentyn ansicr eu cefnogi a’u cysuro gan oedolyn cyn iddynt fynd i chwarae’n annibynnol. Mae’r rhan fwyaf o blant yn deall bod ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau a'u pryderon. Maent yn mynd at ymarferwyr am gymorth pan fo angen.

Mae'r plant yn gwneud ffrindiau yn naturiol ac mae nifer yn chwarae’n hapus gyda'i gilydd neu ochr yn ochr. Maent yn cydweithio’n dda, er enghraifft, maent yn cefnogi ac annog ei gilydd wrth lenwi bwced â thywod. Maent yn dysgu sut i gymryd eu tro a rhannu yn ystod gweithgareddau ac yn garedig ac ystyriol tuag at eu cyfoedion.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn dilyn eu diddordebau yn frwdfrydig. Er enghraifft, roedd plant yn llawn cynnwrf wrth fynd i ôl botel wag o’r gegin chwarae a dechreuon nhw chwerthin a dweud ‘waw!’ wrth i’r dŵr arllwys mewn ffordd diddorol. Mae'r plant yn canolbwyntio ar dasgau am gyfnodau da. Maent yn hyderus i siarad ac yn cynnwys ymarferwyr yn eu chwarae.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth arbrofi gydag amrywiaeth o brofiadau diddorol. Er enghraifft, maent yn mwynhau arbrofi yn y toes gydag amrywiaeth o adnoddau ac yn chwilfrydig wrth gasglu, arllwys a chwarae yn yr ardal ddŵr. Mae’r rhan fwyaf yn datblygu ystod o fedrau annibynnol yn dda gan ddewis a defnyddio lliwiau paent amrywiol yn hyderus.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn ymwybodol o'r polisi diogelu a'u dyletswydd i adrodd am bryderon. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion yn ymwneud â damweiniau a digwyddiadau sy'n cael eu llofnodi gan rieni. Maent yn mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, sy’n eu galluogi i ddelio â mân ddamweiniau yn hyderus. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach trwy baratoi byrbryd iach a chynnig dŵr i yfed. Maent yn cefnogi lles corfforol y plant yn llwyddiannus trwy ddarparu cyfleoedd rheolaidd i ymarfer corff a chwarae yn yr awyr agored. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau glanhau cywir fel rhan o'r broses rheoli heintiau. Er enghraifft, maent yn dilyn gweithdrefnau da wrth newid cewynnau, paratoi bwyd ac annog plant i ddatblygu sgiliau rheoli heintiau personol.

Mae ymarferwyr yn amyneddgar, yn ofalgar ac yn garedig wrth ryngweithio â'r plant. Maent yn ymdrin ag unrhyw ymddygiad amhriodol yn amserol ac yn bwyllog. Er enghraifft, wrth ymyrryd yn gyflym trwy dynnu sylw plentyn a chynnig chwarae gwahanol iddo. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn goruchwylio’r plant yn briodol ac yn ymateb i’w anghenion. Er enghraifft, maent yn cefnogi plant i gwblhau jig-so, ac yn esbonio trefniadau’r bore mewn modd gofalgar sy’n creu ymdeimlad o berthyn. Mae ymarferwyr yn gweithredu’r polisi rheoli ymddygiad yn dda ac yn siarad â phlant yn synhwyrol, ac mewn iaith maent yn ei ddeall. Maent yn fodelau-rôl effeithiol ac yn barchus tuag at blant.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn parchu eu dymuniadau. Er enghraifft, maent yn dilyn trywydd testunau sy’n codi o lyfrau sydd o ddiddordeb ac yn cyfoethogi geirfa plant wrth drafod tractorau a lliwiau cerbydau. Maent yn gweithredu ar wybodaeth gan rieni ac yn defnyddio manylion perthnasol am ddewisiadau ac anghenion unigol eu plant cyn iddynt ddechrau. O ganlyniad, maent yn gallu cwrdd ag anghenion cychwynnol plant yn dda. Mae gan ymarferwyr weithdrefnau effeithiol ar waith i gyfeirio a darparu cymorth i blant ag anghenion ychwanegol. Maent yn cofnodi arsylwadau, yn nodi unrhyw bryderon yn ffeiliau unigol y plant, ac yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae ymarferwyr yn frwdfrydig iawn ac yn defnyddio’r Gymraeg yn gyson o ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o’r Gymraeg yn gynnar.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae dulliau addysgu synhwyrol yr ymarferwyr yn cymell y plant i gydweithio'n ystyrlon, sy'n cael effaith bwrpasol ar eu dysgu a'u medrau. Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu a chwarae buddiol, sy'n galluogi plant i fentro a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda. Er enghraifft, maent yn annog y plant i gydweithio wrth ddefnyddio siapiau tri-dimensiwn i greu patrymau lliwgar.

Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn ddeallus yn ystod gweithgareddau gan annog y plant i arbrofi'n annibynnol wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn cefnogi dealltwriaeth y plant yn bwrpasol wrth gymharu nodweddion anifeiliaid y fferm a threfnu rhifau tra'n cwblhau jig-sos. Mae ymarferwyr yn cynnal trafodaethau cyson â'r plant wrth iddynt chwarae. Maent yn cefnogi'r plant i gydweithio wrth drafod cynnwys a chymeriadau llyfrau penodol ac wrth ddefnyddio sbaneri a sgriwiau yn hyderus yn yr ardal adeiladu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn gweithredu cwricwlwm difyr, sy'n dilyn diddordebau'r plant yn dda. Maent yn ymateb yn bwrpsol i awgrymiadau'r plant yn ystod y sesiynau, er enghraifft, trwy ddarparu gweithgareddau creadigol fel cymysgu lliwiau tra'n addurno blychau cardfwrdd. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod y plant yn dysgu trwy amrywiaeth o heriau ymarferol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llafaredd y plant ac yn eu holi'n dda wrth iddynt chwarae. Gwneir hyn, er enghraifft, trwy roi cyfleoedd i'r plant drafod eu teimladau ar ôl amser ffrwythau ac wrth sgwrsio â'r plant wrth iddynt osod y bwrdd yn yr ardal chwarae rôl. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd pwrpasol ymysg y plant. Maent yn eu herio i dorri toes mewn i siapiau gwahanol a chymharu cyfeintiau blychau yn yr ardaloedd tywod a dŵr yn effeithiol er hyn, nid ydynt yn cynnig cyfleoedd cyson i wella medrau digidol cynnar y plant.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'u harsylwadau ar gyflawniadau'r plant yn foddhaol, ac mae hyn yn dechrau arwain at gynllunio'r camau nesaf yn dysgu plant unigol yn briodol. Fodd bynnag, tra'n cynllunio profiadau ar gyfer y plant, nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon effeithiol i dargedu'r camau nesaf yn natblygiad medrau'r plant. Mae ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant ar lafar, mewn llyfrynnau cynnydd ac ar gyfryngau cymdeithasol diogel.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol y plant yn llwyddiannus. Maent yn eu hannog i ddringo ar gyfarpar anturus, cicio peli a gyrru beiciau o gwmpas yr ardal allanol. Yn ogystal, maent yn darparu gweithgareddau bywyd go iawn bwriadus, fel cefnogi'r plant i blannu blodau a hadau a'u dyfrhau yn ofalus.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda, fel astudio hanes Santes Dwynwen, dathlu Dydd Gŵyl Dewi a chanu caneuon Cymreig. Yn ogystal, mae'r cyfleoedd i hyrwyddo dealltwriaeth y plant o amrywiaeth a diwylliannau eraill yn dda, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ar gyfer y plant ac yn gofyn i ymwelwyr mewngofnodi yn brydlon gan gadw cofnodion manwl. Mae gwiriadau cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol. Mae arweinwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd i sicrhau bod plant ac ymarferwyr yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym a'n ddiogel mewn argyfwng. Mae asesiadau risg pwrpasol yn eu lle ar gyfer yr adeilad, yr ardal tu allan ac ar gyfer gweithgareddau penodol. Mae'r rhestr wirio ddyddiol yn lleihau risgiau i blant ac yn cefnogi'r ymarferwyr i fonitro a delio ag unrhyw fater sy'n codi.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd chwarae sy'n cynnig digon o le ac sy'n addas i'w anghenion. Caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n cynnig awyrgylch cynnes a chroesawgar. Mae'n cynnig cyfleoedd da i blant arwain a chyfarwyddo eu chwarae yn annibynnol. Mae ymarferwyr yn gosod teganau ac yn trefnu gweithgareddau mewn modd sydd o fewn cyrraedd y plant. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o adnoddau a theganau ar silffoedd agored neu fasgedi er mwyn i blant dewis yn annibynnol. Mae byrddau gwybodaeth yn arddangos gwybodaeth eang am ymarferwyr, polisïau, tystysgrifau a gweithdrefnau diogelu priodol. Mae ymarferwyr yn dathlu gwaith y plant trwy arddangos eu lluniau a'u gwaith creadigol sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Mae gan yr ardaloedd chwarae a dysgu ddigon o adnoddau i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu cynnig gweithgareddau ysgogol a chyffrous i'r plant.

Mae arweinwyr yn gwneud dewisiadau ystyrlon o ran celfi ac adnoddau gan sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion y plant. Mae'r toiledau yn cynnwys cyfleusterau addas, gyda sinciau a thoiledau isel i hyrwyddo annibyniaeth. Mae'r amgylchedd yn cefnogi plant i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, trwy ddysgu am fywydau a phrofiadau pobl o wahanol gefndiroedd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn ac maent yn cydweithio'n dda i hyrwyddo gofal a chefnogi dysgu'r plant. Maent yn canolbwyntio'n glir ar ddatblygu'r ddarpariaeth ynghyd â medrau a lles y plant yn eu gofal. O ganlyniad, mae eu harferion rheolaidd a'u hagweddau cadarnhaol yn creu amgylchedd diddorol sy'n darparu profiadau da i'r plant.

Mae arweinwyr yn darparu gofal diwyd yn ystod y sesiynau, sy'n creu ymdeimlad agos rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae'r awyrgylch gofalgar hwn yn annog plant i gydweithio'n dda a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r rhieni a gofalwyr am ddatblygiad a chyflawniad eu plant. Defnyddiant gyfryngau cymdeithasol diogel a llyfrynnau cynnydd yn ystyrlon i ddarparu gwybodaeth berthnasol iddynt.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n gydwybodol fel tîm ac yn sicrhau bod pawb yn mynychu hyfforddiant defnyddiol i wella'u haddysgu a'u systemau gofal. Maent yn cadw cofrestr plant ac ymarferwyr, ac yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn gywir ar bob adeg. Mae arweinwyr yn sicrhau bod dogfennau statudol, polisïau ac arferion y lleoliad yn cael eu hadnewyddu'n flynyddol. Mae'r Datganiad o Ddiben yn gywir ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir. Maent yn sicrhau bod y prosesau ar gyfer goruchwylio, gwerthuso ac arfarnu gwaith a datblygiad yr holl ymarferwyr yn briodol.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar gyflwyno gwelliannau cyson er mwyn datblygu arferion y lleoliad ymhellach. Maent yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso defnyddiol, sy'n arwain at dargedau perthnasol ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion sydd angen sylw yn dda ar y cyfan. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n bwrpasol ar ddatblygu rôl yr arweinydd newydd a gwella cyfleoedd i rieni drafod cynnydd eu plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farn pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol â'r holl randdeiliaid i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant, ac yn gweithredu ar awgrymiadau swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Yn sgîl hyn, maent yn llwyddo i ddarparu profiadau amrywiol i blant chwarae rôl ac i ddatblygu eu medrau llafar tra'n edrych ar lyfrau a thrafod straeon.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn dyrannu adnoddau'n dda ar y cyfan. Maent yn defnyddio'r gyllideb yn ofalus ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn ddoeth. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn ddeallus, fel deunyddiau i ddatblygu medrau creadigol y plant.

Mae gan yr arweinwyr berthynas dda â'r ysgol ac mae hyn yn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn bwrpasol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin yn effeithiol, ac maent yn defnyddio'r ardal leol yn fwriadus. Er enghraifft, mae ymarferwyr a'r plant yn mynd am dro i arsylwi ar fywyd y pentref, fel y siop, y goedwig a'r traeth, ac yn gwahodd aelodau o'r pentref i ymweld â'r lleoliad fel ffermwr ag oen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/05/2025